

ADNABOD ASED EICH CLWB

Mae ymgysylltu llwyddiannus a dwfn â'r gymuned yn broses dwy ffordd. Proses lle mae cryfderau nid yn unig yn gweithredu fel sbardun i gysylltu â grwpiau newydd a gwahanol ond hefyd lle mae goresgyn rhwystrau a heriau yn dod â phobl ynghyd. Nod ymgysylltu yw gwella a datblygu'r gymuned 'ehangach'.

Cyn i chi ddechrau cysylltu â'r gymuned mae'n bwysig rhoi peth amser i feddwl am asedau eich clwb, ei gryfderau a sut gallwch eu defnyddio nid yn unig i ffurfio cysylltiadau o fewn y gymuned, ond i ychwanegu at yr asedau cymunedol ar y cyd.

Ystyriwch feddwl am y clwb cyfan o'r gwaith sy'n digwydd, ar y cae gyda'r chwaraewyr a'r gwirfoddolwyr, i'r hyn rydych chi'n ei wneud oddi ar y cae, fel gweithio mewn cymuned benodol neu weithio mewn partneriaeth â sefydliadau allanol.

Efallai yr hoffech ofyn i'r rhai sy'n ymwneud â'ch clwb gyfrannu at adnabod eich cryfderau. Gall hyn eich helpu i weld neu dynnu sylw at gryfderau eraill y gallech fod wedi'u hanwybyddu. Ar ôl i chi gasglu gwybodaeth am eich cryfderau, efallai yr hoffech chi rannu'r rhain gyda'ch aelodau, rhanddeiliaid a'r gymuned ehangach i'ch helpu chi i nodi'r prif gryfderau. Gellid gwneud hyn drwy arolwg neu bôl bychan.

Mae cyfres o themâu wedi'i nodi yn y ddogfen hon i'ch helpu i droi pob un carreg wrth nodi'r holl gryfderau mawr sydd gennych chi.

Cysylltiadau Cymunedol

**Aelodau'r Clwb (chwar-
aewyr, gwirfoddolwyr,
gwylwyr ac ati).**

Llefydd a Gofod y Clwb

Gweithgarwch Cymunedol

**Sylfeini (cyfreithiol, lly-
wodraethu, cynllunio)**

**Lleoliad yn y
Gymuned**

Marchnata a Chyfathrebu

**Cyfleoedd Chwarae/
Gwirfoddoli**

**Llwyddiannau/Cyflawniadau
Blaenorol**

Prosiectau/Mentrau

**Perthynas â
Rhanddeiliaid**

**Sgiliau a Phrofiadau
Aelodau'r Pwyllgor/Bwrdd**



Cwestiynau allweddol i'ch annog chi i feddwl.

Themâu	Eich Cryfderau
Cysylltiadau Cymunedol	Gyda phwy rydyn ni'n gweithio'n agos? Pam ydyn ni'n cydweithio'n dda? Beth ydyn ni wedi'i gyflawni gyda'n gilydd?
Aelodau'r Clwb (chwaraewyr, gwirfoddolwyr, gwylwyr ac ati).	Pwy ydyn ni'n eu denu? Pam ydyn ni'n denu'r aelodau hyn? Beth mae ein haelodau'n ei garu am fod yn rhan o'n clwb?
Llefydd a Gofod yn y Clwb	Pa lefydd a gofod sydd ar gael i ni? Sut ydyn ni'n manteisio i'r eithaf ar y rhain at ddefnydd y clwb a'r gymuned?
Gweithgarwch Cymunedol	Sut mae ein gweithgarwch cymunedol hyd yma wedi cael ei dderbyn? Gyda phwy rydyn ni wedi cysylltu?
Sylfeini (cyfreithiol, llywodraethu, cynllunio)	Sut ydyn ni'n sicrhau ein bod ni'n gweithredu'n llyfn ac yn briodol? Pa sylfeini allweddol sydd gennym yn eu lle eisoes?
Lleoliad yn y Gymuned	Ydi ein lleoliad yn ein helpu i dyfu a datblygu? Ydyn ni'n denu aelodau newydd a phresennol oherwydd ein lleoliad? Pa fanteision mae ein lleoliad yn eu cynnig?
Marchnata a Chyfathrebu	Pa adnoddau ydyn ni'n eu defnyddio i gyfleu ein neges (ee cyfryngau cymdeithasol, tafod lleferydd)? Sut mae pobl yn gwybod pwy ydyn ni a beth rydyn ni'n ei wneud?
Cyfleoedd Chwarae/Gwirfoddoli	Pwy ydyn ni'n eu denu? Pam ydyn ni'n denu'r unigolion / grwpiau hyn?
Llwyddiannau/Cyflawniadau Blaenorol	Pam yr ystyriwyd eu bod yn llwyddiannau / cyflawniadau? Pwy oedd yn gysylltiedig?
Prosiectau/Mentrau	Beth fu rhai o'n prosiectau mwyaf llwyddiannus hyd yma? Pam roedden nhw'n llwyddiannus?
Perthnasoedd â Rhanddeiliaid	Gyda phwy rydyn ni'n gweithio? Sut ydyn ni wedi gweithio gyda nhw? Beth fu rhai o'r canlyniadau allweddol?
Sgiliau a Phrofiadau Aelodau'r Pwyllgor/Bwrdd	Pa sgiliau sydd gennym ar ein pwyllgor / bwrdd? Pa brofiadau maen nhw'n eu cynnig? Sut ydyn ni'n manteisio i'r eithaf ar y sgiliau a'r profiadau hyn?

Cwestiynau allweddol i'ch annog chi i feddwl.

Nawr bod gennych chi syniad o rai o'r themâu arweiniol, gallwch chi ddechrau gweithio ar nodi'ch cryfderau yn y tabl isod.

Themâu	Eich Cryfderau
Cysylltiadau Cymunedol	
Aelodau'r Clwb (chwaraewyr, gwirfoddolwyr, gwylwyr ac ati).	
Llefydd a Gofod yn y Clwb	
Gweithgarwch Cymunedol	
Sylfeini (cyfreithiol, llywodraethu, cynllunio)	
Lleoliad yn y Gymuned	
Marchnata a Chyfathrebu	
Cyfleoedd Chwarae/Gwirfoddoli	
Llwyddiannau/Cyflawniadau Blaenorol	
Prosiectau/Mentrau	
Perthnasoedd â Rhanddeiliaid	
Sgiliau a Phrofiadau Aelodau'r Pwyllgor/Bwrdd	

Mae cael syniad clir o beth yw eich cryfderau a sut gallant gyfrannu o fewn ac ar gyfer y gymuned ehangach yn gam cyntaf gwych i ddeall gwir ymgysylltiad cymunedol.

Yn unigol, ychydig iawn allwn ni ei wneud. Gyda'n gilydd gallwn gyflawni cymaint mwy.
– Helen Keller

